**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pecyn cyfarfod llawn

# Pecyn Cyfarfod Llawn ar y Bil Cymru drafft

Dyddiad y ddadl: 13 Ionawr 2016

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: cynulliad.cymru/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddYmchwil
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/2888
Rhif dogfen:15/043

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pecyn cyfarfod llawn

# Pecyn Cyfarfod Llawn ar y Bil Cymru drafft

Dyddiad y ddadl: 13 Ionawr 2016

Stephen Boyce

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Contents


01. Cyflwyniad ........ 1

02. Dogfennau allweddol ........ 2

03. Datganiadau a datganiadau i'r wasg ........ 3

04. Busnes y Cynulliad ........ 4

04.1. Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ........ 4

04.2. Pwyllgorau eraill y Cynulliad ........ 5

05. Craffu cyn deddfu yn San Steffan ........ 6

05.1. Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ........ 6

06. Rhagor o wybodaeth ........ 7

07. Atodiad Bil Cymru drafft: crynodeb o'r prif ddarpariaethau a materion a nodwyd yn ystod craffu ........ 8

07.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau ........ 8

07.2. Crynodeb o'r prif faterion ........ 9

# 01.Cyflwyniad

Cafodd y **Bil Cymru drafft** ei gyflwyno i'r Senedd gan Lywodraeth y DU ar 20 Hydref 2015.

Mae'r Bil drafft yn rhagarweiniad i ddeddfwriaeth newydd ar ddatganoli yng Nghymru, yn seiliedig ar yr argymhellion yn adroddiad Silk II a thrafodaethau Dydd Gŵyl Dewi. Bwriad Llywodraeth y DU yw cyhoeddi'r Bil terfynol yn nechrau 2016 er mwyn cael Deddf ar y llyfrau statud erbyn dechrau 2017.

Mae'r Bil drafft yn pennu setliad datganoli newydd i Gymru yn seiliedig ar y **model cadw pwerau** sy'n rhestru'r pynciau na all y Cynulliad ddeddfu arnynt, yn hytrach na'r rhai y gall ddeddfu yn eu cylch, sef y model presennol. Bydd y model cadw pwerau, ynghyd â'r profion cymhwysedd ar gyfer deddfwriaeth, yn creu'r fframwaith ar gyfer gweithredu datganoli yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r Bil drafft hefyd yn rhoi i'r Cynulliad bwerau mewn meysydd newydd gan gynnwys ynni, trafnidiaeth, llywodraeth leol a'i swyddogaethau ei hun (gan gynnwys etholiadau'r Cynulliad a nifer Aelodau'r Cynulliad). Mae hefyd yn gosod mewn statud natur barhaol Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru ac yn nodi'r trefniadau ar gyfer cytuno ar ddeddfwriaeth San Steffan ar faterion datganoledig.

Ers cyhoeddi’r Bil drafft, mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi ei fwriad i ddefnyddio'r Bil i ddileu'r gofyniad am refferendwm, cyn datganoli treth incwm i Gymru yn rhannol.

Ymchwiliodd y **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** y Bil drafft yn ystod mis Tachwedd a chyhoeddodd ei adroddiad ar 4 Rhagfyr 2015. Mae **Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig** Tŷ'r Cyffredin hefyd wedi craffu ar y Bil drafft ond ni chyhoeddwyd ei adroddiad eto. Cymerodd y ddau bwyllgor dystiolaeth ar y cyd yn y Senedd ar 9 Tachwedd.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynhyrchu **crynodeb byr o'r prif ddarpariaethau yn y Bil drafft a'r materion a godwyd yn ystod y gwaith craffu - mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon**. Mae crynodeb manylach o'r dystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil drafft a gafodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gael ar **dudalen y Gwasanaeth Ymchwil** ar wefan y Cynulliad.

# 02.Dogfennau allweddol

**20 Hydref 2015 - Bil Cymru drafft**

Mae'r ddogfen yn cynnwys testun y Bil drafft yn ogystal â'r **memorandwm esboniadol.**

**27 Chwefror 2015** - Llywodraeth y DU, **Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales**, Papur Gorchymyn Cm 9020 (PDF, 838KB).

**3 Mawrth 2014** - Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), **Empowerment and responsibility: legislative powers to strengthen Wales - 'Silk Part II report'**

# 03.Datganiadau a datganiadau i'r wasg

**20 Hydref 2015 - Datganiad Gweinidogol y DU**

Mewn **datganiad ysgrifenedig** ar y Bil drafft, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> **The Secretary of State for Wales (Stephen Crabb):** I am pleased today to publish the draft Wales Bill for pre-legislative scrutiny.
>
> The draft Bill sets out the Government's plans for a stronger, clearer and fairer devolution settlement for Wales that will stand the test of time. It implements the commitments made in the St David's Day agreement and set out in the Command Paper Powers for a Purpose: Towards a lasting devolution settlement for Wales (CM 9020), published in February.
>
> The key measures include a new reserved powers model for Welsh devolution, similar to the one which currently operates in Scotland, providing a clear and complete boundary between devolved and reserved subjects. The draft Bill devolves important new powers for Wales in areas such as energy, transport and local government and Assembly elections. It also provides greater powers to the Assembly over its own affairs, including the ability to change its name.
>
> The new devolution settlement provided for in the draft Bill will create a stronger Wales within a strong United Kingdom. It will work better for the people of Wales and allow more time for the Welsh Government to focus on delivering growth, jobs and better public services.
>
> I am grateful to the Welsh Affairs Committee for agreeing to undertake pre-legislative scrutiny of the draft Bill and I look forward to receiving their report. The Government will continue discussions with the Welsh Government on the detail of the reserved powers model alongside pre-legislative scrutiny. It is vital that we deliver a robust new devolution settlement that works for the people of Wales.

**20 Hydref 2015** - Swyddfa Cymru: Datganiad i'r wasg: **Cymru gryfach mewn Teyrnas Unedig gadarn**

**20 Hydref 2015 - Datganiad Llywodraeth Cymru**

Gwnaeth Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref 2015. (Gweler isod)

**20 Hydref 2015 - Datganiad gan y Llywydd**

Gwnaeth Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad, ddatganiad i gyd-fynd â lansiad y Bil drafft.

**16 Tachwedd 2015** - Y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd: Datganiad Newyddion: **'Setliad cyfansoddiadol clir, ymarferol a gwydn': Y Llywydd yn amlinellu newidiadau adeiladol i'r Bil Cymru drafft**. Nododd y Llywydd ei hawgrymiadau ar gyfer gwella eglurder ac ymarferoldeb y Bil drafft drwy wneud gwelliannau sylweddol.

# 04.Busnes y Cynulliad

**3 Tachwedd 2015** - Cyfarfod Llawn: Dadl ar y Bil Cymru drafft **Trawsgrifiad** | **Gwylio'r sesiwn**

**20 Hydref 2015** - Prif Weinidog: **Datganiad** yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil Cymru drafft **Trawsgrifiad** | **Gwylio'r sesiwn**

## 04.1. Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gwneud gwaith craffu ar y Bil drafft ym mis Tachwedd 2015.

### Sesiynau tystiolaeth lafar:

**23 Tachwedd 2015** cyfarfod **Trawsgrifiad** | **Gwylio'r sesiwn**

Tystiolaeth lafar: Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru; Geth Williams, Swyddfa Cymru; Sue Olley, Swyddfa Cymru

**16 Tachwedd 2015** cyfarfod **Trawsgrifiad** | **Gwylio'r sesiwn**

Y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd; Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad; Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Cynulliad

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru; Hugh Rawlings, Cyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru

**9 Tachwedd 2015** cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. **Trawsgrifiad** | **Gwylio'r sesiwn**

Yr Athro Thomas Glyn Watkin ac Emyr Lewis, Partner ac Uwch Bartner Rhanbarthol, Blake Morgan

Yr Athro Richard Wyn Jones a'r Athro Roger Scully, Canolfan Llywodraethiant Cymru

### Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: **Adroddiad ar Fil Cymru Drafft Llywodraeth y DU**, Rhagfyr 2015

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: **Adroddiad drafft ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer datganoli pellach i Gymru**, Gorffennaf 2015

### 04.3. Pwyllgorau eraill y Cynulliad

Bu'r Pwyllgorau canlynol hefyd yn trafod y Bil Cymru drafft mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar eu portffolios. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd **tystiolaeth ysgrifenedig** i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

**01. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**02. Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**03. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**04. Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**05. Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**06. Y Pwyllgor Cyllid**

**07. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# 05.Craffu cyn deddfu yn San Steffan

## 05.1. Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig Tŷ'r Cyffredin

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi cynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil.

### Sesiynau tystiolaeth lafar:

**9 Rhagfyr 2015: Trawsgrifiad o'r Cyfarfod | Parliament TV**

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol; Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Cymru; Sue Olley, Cynghorydd Cyfreithiol, Swyddfa Cymru.

**30 Tachwedd 2015: Trawsgrifiad o'r Cyfarfod | Parliament TV**

Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**23 Tachwedd 2015: Trawsgrifiad Parliament TV**

Kay Powell, Cynghorydd Polisi, Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr; Huw Williams, Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr; Hefin Rees QC, Cadeirydd, Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru Llundain; Alan Trench; Rachel Banner, Cymru Wir; Annie Mulholland, Cymru Wir; Roger Cracknell, Cymru Wir

**16 Tachwedd 2015: Trawsgrifiad o'r Cyfarfod | Parliament TV**

Y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd; Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad; Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

**9 Tachwedd 2015: Trawsgrifiad o'r Cyfarfod | Parliament TV**

Andrew RT Davies AC; Leanne Wood AC; Kirsty Williams AC; William Graham AC, Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Syr Paul Silk, Cadeirydd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru; Hugh Rawlings, Cyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (**Trawsgrifiad**)

**26 Hydref 2015: Trawsgrifiad o'r Cyfarfod | Parliament TV**

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol; Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol; Sue Olley, Cynghorydd Cyfreithiol, Swyddfa Cymru

– **Tystiolaeth ysgrifenedig**

– **Gohebiaeth**

# 06.Rhagor o wybodaeth

Mae lincs at sawl dogfen a ffynhonnell arall sy'n ymwneud â'r Bil Cymru drafft, gan gynnwys gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar gael ar **Dudalen y Gwasanaeth Ymchwil** ar wefan y Cynulliad.

# 07. Atodiad
# Bil Cymru drafft: crynodeb o'r prif ddarpariaethau a materion a nodwyd yn ystod craffu

## 07.1. Crynodeb o'r prif ddarpariaethau

Cafodd **Bil Cymru drafft** ei osod yn y Senedd gan Lywodraeth y DU ar 20 Hydref 2015. Mae Bil drafft yn cynnig nifer o newidiadau mawr i gyfraith gyfansoddiadol Cymru:

– Mae'n darparu ar gyfer cydnabod Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru yn rhannau parhaol o drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig (cymal 1);

– Mae'n rhoi cydnabyddiaeth statudol i'r confensiwn presennol na fydd Senedd y Deyrnas Unedig "fel arfer" yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad y Cynulliad (cymal 2);

– Mae'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad newid materion pwysig fel ei enw, nifer yr Aelodau Cynulliad, y modd y caiff Aelodau'r Cynulliad eu hethol, gan gynnwys yr etholfraint a'r system etholiadol, a hyd tymhorau'r Cynulliad. Byddai Bil Cynulliad i ddod â rhai o'r newidiadau hynny i rym yn amodol ar gytundeb mwyafrif arbennig: dwy ran o dair o holl Aelodau'r Cynulliad.

– Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnig rhoi pwerau llawn i'r Cynulliad ar y rhan fwyaf o'r agweddau ar ei faterion mewnol ei hun (gweler cymalau 23, 24 ac Atodlen newydd 7B, paragraff 7(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 1 y Bil drafft).

– Mae'r Bil drafft yn cynnig trawsnewid cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau (cymal 3 ac Atodlenni 1 a 2).

– Mae hefyd yn datganoli cymhwysedd i'r Cynulliad mewn meysydd ychwanegol (i bob pwrpas drwy beidio â throsi eithriadau presennol i gymhwysedd i'r rhestr cymalau cadw yn Atodlen 7B, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 2).

– Yn olaf, mae'r Bil drafft yn rhoi swyddogaethau gweithredol newydd i Weinidogion Cymru. Mae rhai o'r swyddogaethau hyn yn dod o fewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol newydd i'r Cynulliad; mae eraill mewn meysydd lle nad oes gan y Cynulliad unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol o hyd (e.e. rheoliadau adeiladu - gweler cymal 28).

## 07.2. Crynodeb o'r prif faterion

Mae'r hwn yn grynodeb byr o'r prif faterion sy'n codi o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod ei waith craffu ar Fil Cymru drafft. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil hefyd wedi llunio crynodeb manylach o'r dystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil drafft.

### Trosolwg

Er bod llawer o'r agweddau ar y Bil drafft wedi cael eu croesawu, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai'r effaith gyffredinol yw gwneud pethau'n fwy cymhleth a gwneud model datganoli Cymru yn llai eglur, a chymryd cam yn ôl o ran cymhwysedd y Cynulliad.

### Cymalau 1 a 2

Mae cymal 1 y Bil drafft yn cydnabod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn rhannau parhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU. Mae cymal 2 yn nodi na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad y Cynulliad.

Mae'r darpariaethau hyn wedi cael eu croesawu'n fras er gwaethaf rhai cwestiynau ynghylch cadernid ac awgrymiadau bod angen cryfhau'r gwaith o ddrafftio'r ddau gymal.

### Model cadw pwerau

Cymal 3 yw'r ddarpariaeth allweddol yn y Bil drafft sy'n amlinellu'r model cadw pwerau newydd. Mae'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy osod adran *108A cymhwysedd deddfwriaethol* yn lle adran 108. Mae hefyd yn disodli Atodlen 7 (sy'n amlinellu'r 21 o bynciau y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt ar hyn o bryd) gydag Atodlenni *7A Materion a gadwyd yn ôl* a *7B Cyfyngiadau cyffredinol*.

Roedd y dystiolaeth ar y Bil drafft yn tynnu sylw at y nifer fawr o faterion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A - mwy na dau gant ohonynt - a'r ffaith yr ymddengys nad oes egwyddorion yn tywys y broses o ddewis y materion a gedwir yn ôl. Awgrymwyd y dylai'r egwyddor o sybsidiaredd bennu pa faterion y bydd Senedd y DU yn eu cadw'n ôl. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol nad ei fwriad oedd dechrau â dalen wag o bapur, ond i drosi'r model presennol i fodel cadw pwerau, gyda rhai pwerau ychwanegol i'r Cynulliad.

### Profion 'angenrheidrwydd' ac addasu cyfraith breifat a chyfraith trosedd

Mae'r Bil drafft yn gosod deg prawf cymhwysedd yng nghymal 3 ac yn Atodlen 7B newydd. Mae rhai o'r profion yr un fath â'r profion presennol, ond mae rhai profion newydd, yn enwedig y pedwar prawf 'angenrheidrwydd' newydd.

Mae'r profion 'angenrheidrwydd' newydd yn ymddangos yn adran 108A(3) newydd (cymal 3) ac ym mharagraffau 2, 3 a 4 o Atodlen 7B newydd. Maent yn creu prawf ychwanegol mewn pedwar maes ar gyfer Biliau'r Cynulliad mewn perthynas â chymhwysedd y Cynulliad i: wneud darpariaethau sy'n effeithio ar Loegr, neu addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl, neu addasu "cyfraith breifat" neu gyfraith trosedd.

Mae tystiolaeth ar y Bil drafft yn awgrymu y byddai'r profion newydd hyn yn gosod cyfyngiadau ychwanegol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu ac yn gwneud pethau'n fwy cymhleth, ac felly'n lleihau ymarferoldeb y ddeddfwriaeth newydd. Er enghraifft, dadleuir bod angen bod y Cynulliad yn gallu diwygio cyfraith breifat a chyfraith trosedd er mwyn dod â deddfwriaeth i rym, ac y bydd ei allu presennol i wneud hynny, pan fydd yr addasiadau yn ymwneud â phwnc datganoledig, yn cael ei gwtogi. Awgrymir bod sawl ystyr i'r term 'angenrheidiol', ac felly y byddai deddfwriaeth y Cynulliad yn

agored i her gyfreithiol. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y profion yn tanseilio'r ddeddfwrfa a etholwyd yn ddemocrataidd yng Nghymru.

## Cydsyniadau Gweinidogion y Goron

Mae paragraff 8 o Atodlen 7B yn cynnwys prawf o ran addasu etc. swyddogaethau Gweinidogion y Goron a'r effeithiau ar awdurdodau a gedwir. Mae hyn yn ymestyn cwmpas y prawf presennol i ystod ehangach o amgylchiadau lle byddai angen ceisio cydsyniad Gweinidog. Mae'r prawf newydd wedi cael ei feirniadu o ran yr ansicrwydd y gall ei achosi, y posibilrwydd o oedi deddfwriaeth, a'r canfyddiad o bŵer i weithrediaeth y DU ymyrryd ym materion y ddeddfwrfa Gymreig. Rhoddwyd enghreifftiau o Filiau'r Cynulliad a fyddai bellach yn gofyn am gydsyniad Gweinidog, gan gynnwys *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*.

Yn ogystal, mae tystiolaeth wedi tynnu sylw at y ffaith yr ymddengys fod diffyg eglurder yn y diffiniad o awdurdodau cyhoeddus Cymru ym mharagraff 218 o Atodlen 7A, sydd yn peri pryder arbennig o ystyried y gofyniad newydd i geisio cydsyniad Gweinidog i ddeddfu ynghylch unrhyw awdurdod cyhoeddus, ac eithrio awdurdod cyhoeddus yng Nghymru.

Dadleuodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylai cydsyniad Gweinidogion y DU fod yn ofynnol lle mae Biliau'r Cynulliad yn gosod swyddogaethau ar gyrff a gedwir yn yr un modd ag y ceisir cydsyniad y Cynulliad pan fydd y Senedd yn deddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli.

Cafwyd awgrym yn y dystiolaeth y byddai'n well datganoli swyddogaethau Gweinidogion y Goron ar faterion sydd wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru (fel yn yr Alban o dan adrannau 53-56 a 58 o *Ddeddf yr Alban 1998*).

## Un awdurdodaeth yng Nghymru a Lloegr

Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod cymhlethdod y model yn y Bil drafft yn adlewyrchu'n rhannol yr awydd i gadw'r un awdurdodaeth yng Nghymru a Lloegr; y farn oedd na ddylid cyfyngu ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad wrth fynd ar drywydd y nod hwnnw. Er nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi'r broses o greu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, mae rhywfaint o'r dystiolaeth yn cynnig awdurdodaeth *benodol* yn hytrach nag awdurdodaeth *ar wahân* i fynd i'r afael â'r ymraniad yng nghyfraith Cymru a Lloegr. Byddai hynny'n golygu system gyfreithiol heb ei rhannu yn cymhwyso deddfau penodol.

## Pwerau dros swyddogaethau'r Cynulliad ac etholiadau

Mae'r darpariaethau yn y Bil drafft ynghylch etholiadau yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ar weinyddu etholiadau'r Cynulliad (cymalau 4, 5 a 6) a chymhwysedd y Cynulliad i ddiwygio rhai darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag etholaethau a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, amseriad etholiadau'r Cynulliad, pleidleisio, ymgeiswyr, cyfrifo a dyrannu aelodau rhanbarthol, swyddi gwag achlysurol a'r etholfraint (Atodlen 7B, paragraff 7). Byddai angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r holl seddi yn y Cynulliad ar gyfer newidiadau i'r etholfraint, y system etholiadol a nifer yr aelodau, etholaethau ac ati. Mae'r Bil drafft hefyd yn rhoi pwerau eang i'r Cynulliad dros etholiadau lleol, gan nad ydynt gan fwyaf wedi'u rhestru fel materion a gedwir yn ôl.

Mae'r darpariaethau hyn yn y Bil drafft wedi cael eu croesawu gan fwyaf, gan gynnwys y gofyniad am fwyafrif o ddwy ran o dair yn y Cynulliad.

Hefyd, croesawyd y darpariaethau yn y Bil drafft i'r Cynulliad gael rheolaeth dros ei weithrediadau mewnol (cymalau 19, 23 a 24).  Mae rhywfaint o dystiolaeth, e.e. gan y Llywydd, yn awgrymu meysydd lle dylid ymestyn y pwerau hyn ymhellach.

### Cymalau cadw cyffredinol a phenodol

Mae'r ymateb i drosglwyddo pwerau mewn meysydd fel ynni, trafnidiaeth a chynllunio wedi bod yn ffafriol ar y cyfan, ond mae pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch y manylion.  Mae rhywfaint o dystiolaeth wedi cynnig ychwanegu meysydd cymhwysedd newydd eraill.

# Bil Cymru drafft

**Cyflwyniad**

*Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r termau technegol a deddfwriaethol Cymraeg sy'n gysylltiedig â Bil Cymru drafft ('y Bil drafft').*

| | |
|---|---|
| ancillary – **ategol** | permanence – **parhauster** |
| codify – **codeiddio** | private law - **cyfraith breifat** |
| combination rule(s) – **rheol(au) cyfuno** | property law – **cyfraith eiddo** |
| common law power(s) - **pŵer (pwerau) cyfraith gyffredin** | proposed reserved powers model – **model cadw pwerau'n ôl arfaethedig** |
| conferred powers model – **model rhoi pwerau** | protected subject-matter – **pwnc a warchodir** |
| consolidate – **cydgrynhoi** | Representation of the People Act - **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl** |
| consolidation Bill – **Bil cydgrynhoi** | reservation(s) – **cymal(au) cadw** |
| contract law – **cyfraith contractau** | reserved authority – **awdurdod a gedwir yn ôl** |
| criminal law – **cyfraith trosedd** | reserved matter(s) – **mater(ion) a gedwir yn ôl** |
| devolved purpose – **pwrpas datganoledig** | reserved powers model – **model cadw pwerau'n ôl** |
| enabling Bill – **Bil galluogi** | restate the law – **ailddatgan y gyfraith** |
| enforcement provision(s) – **darpariaeth(au) gorfodi** | serious adverse impact – **effaith niweidiol difrifol** |
| exception(s) – **eithriad(au)** | single legal jurisdiction – **awdurdodaeth gyfreithiol sengl** |
| executive power – **pŵer (pwerau) gweithrediaeth** | sovereignty – **sofraniaeth** |
| franchise – **etholfraint** | St David's Day process – **proses Dydd Gŵyl Dewi** |
| intellectual property right(s) – **hawl(iau) eiddo deallusol** | super-majority – **uwch-fwyafrif** |
| intervention power – **pŵer ymyrryd** | Supreme Court – **Goruchaf Lys** |
| legislative competence – **cymhwysedd deddfwriaethol** | tenancy law – **cyfraith tenantiaeth** |
| necessary – **angenrheidiol** | Welsh offshore region – **rhanbarth môr mawr Cymru** |
| necessity test(s) – **prawf (profion) angenrheidrwydd** | Welsh onshore area – **ardal glannau Cymru** |

**Ymadroddion defnyddiol**

Presiding Officer's tests of clarity, workability and no roll-back of competence - **Meini prawf y Llywydd sef setliad eglur, ymarferol a dim camu'n ôl o ran cymhwysedd y Cynulliad**